



## BETH YW CYNEFIN?

**Cartref yw cynefin.** Mae cynefinoedd yn gymhleth a ni chânt eu gweld o safbwynt rhywogaeth unigol. Mae planhigion ac anifeiliaid sy'n addas ar gyfer cynefinoedd penodol yn rhyngweithio ac yn dibynnu ar ei gilydd a gall colli neu ychwanegu un elfen fach effeithio ar allu rhywogaethau i ffynnu yn y cynefin hwnnw.



O ran **anifeiliaid**, mae angen i'r cynefin ddarparu cysgod, aer, dŵr, bwyd a phopeth sy'n caniatáu iddynt ddod o hyd i gymar ac atgenedlu.

O ran **planhigion**, rhaid i'r cynefin ddarparu'r cyfuniad cywir o olau, aer, dŵr a phridd (os caiff ei ddefnyddio) i'w galluogi i dyfu ac atgynhyrchu.

Gellir gweld cynefinoedd ar raddfa fawr e.e. coedwig law'r Amazon neu ar raddfa fach iawn e.e. pwll yn eich gardd gefn. Mae'r ddau'r un mor bwysig ond yn darparu pethau gwahanol.

# Cynefinoedd nodweddiadol ar dir fferm yng Nghymru

Mae ffermydd yn darparu amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd ac yn gartref i lawer o wahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid. Yng Nghymru, cynefinoedd glaswelltir sydd amlycaf ond mae hyd yn oed amrywiad rhwng mathau o laswelltir. Er enghraifft, mae llawer o ffermydd wedi gwella porfeydd yn ogystal ag ardaloedd o laswelltir heb ei wella nad yw erioed wedi cael ei aredig a'i ail-hadu. Mae porfa rhos, neu laswelltir corsiog i'w gael fel arfer mewn ardaloedd sydd wedi'u draenio'n wael ac mae'n darparu cynefin pwysig ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear ac infertebratau prin gan gynnwys glöyn byw brith y gors.

Mae rhwydweithiau o wrychoedd ar ffermydd yn darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt ochr yn ochr â'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae wrth ddarparu cysgod i anifeiliaid a rheoli llif dŵr ar ffermydd. Mae coetiroedd a choedlannau yn gyffredin ar ffermydd ac yn darparu cysgod i dda byw a chnydau yn ogystal â darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt.

Mae pyllau a chyrsgiau dŵr yn nodweddion gwych i'w cael ar fferm a gallant ddarparu cynefinoedd ar gyfer ystod eang o infertebratau, adar, mamaliaid a phlanhigion.

Mae strwythurau wedi'u cynhyrchu gan ddyn fel ymylon ffyrdd, waliau cerrig ac adeiladau hefyd yn darparu cynefinoedd. Mae llawer o blanhigion yn ffynnu ar ymylon ffyrdd ac yn darparu adnoddau bwyd i lawer o adar, mamaliaid, amffibiaid ac infertebratau. Mae waliau ac adeiladau cerrig yn darparu cysgod ac yn aml gallant gynnal planhigion ac anifeiliaid mwy arbenigol nad ydynt i'w cael yn unman arall.



## Ydy rhai cynefinoedd yn bwysicach nag eraill?

Mae pob cynefin yn bwysig ac mae'n anodd blaenoriaethu un dros y llall. Gall rhai fod yn bwysig yn lleol neu'n genedlaethol oherwydd eu bod yn cynnal rhywogaethau sy'n lleihau ac sydd angen eu hamddiffyn. Mae safleoedd sydd â chynefinoedd sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau cyffredin hefyd yn bwysig ac yn haeddu cael eu cadw. Y peth pwysig i'w gofio yw y gall ffermio cynhyrchiol fodoli ochr yn ochr ag amgylchedd naturiol sy'n gyfoethog mewn bioamrywiaeth. Mae gan lawer o ffermydd yng Nghymru fosäig o wahanol gynefinoedd sy'n gartref i lawer o rywogaethau gwahanol ac mae digon o gyfleoedd i wella ardaloedd o'r fferm ac annog bywyd gwyllt heb effeithio'n negyddol ar gynhyrchiant y fferm.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

